**Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD**

**Agenda**

**Dyddiad:** Dydd Iau 29 Mehefin 2006
**Amser:** 2:00pm
**Lleoliad:** Ystafell 2, y Senedd

**Eitem 1: Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf a Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd – 5 munud**

**Papur:** Cofnodion - STD(2) 02-06(01)

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfod, yn amlinellu ei ddibenion yn gryno ac yn gofyn a oes unrhyw ymddiheuriadau. Gwahoddir Aelodau'r Pwyllgor i gytuno ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau 9 Mawrth 2006.

**Eitem 2: Diweddaru ac Adolygu'r Camau oedd yn Deillio o STD(2) 01-06 - 5 munud**

**Papur:** Papur a gynhyrchwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD(2) 02-06(02)

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r cynnydd a'r gwaith sydd ar y gweill.

**Eitem 3: Adroddiad y Comisiynydd Safonau - 10 munud**

**Papur:** Papur a gynhyrchwyd gan y Comisiynydd – STD(2) 02-06(03)

Bydd y Comisiynydd Safonau yn adrodd i'r Pwyllgor ar y gwaith y bu'n ei wneud ers y cyfarfod diwethaf.

**Eitem 4: Y Pwyllgor Rheolau Sefydlog - 10 munud**

**Papur:** Papur a gynhyrchwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD(2) 02-06(05)

Gwahoddir Aelodau'r Pwyllgor i nodi'r ohebiaeth gan y Pwyllgor Rheolau Sefydlog.

**Eitem 5: Adolygiad o Reol Sefydlog 4 - 45 munud**

**Papur:** Papur a gynhyrchwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD(2) 02-06(06)

Gwahoddir Aelodau'r Pwyllgor i nodi'r papur a gynhyrchwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth mewn perthynas â Mesur Buddiannau Aelodau a basiwyd yn Senedd yr Alban yn ddiweddar.

## Eitem 6: Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf – 5 munud

Dyma'r cyfarfod olaf o'r Pwyllgor cyn toriad yr Haf. Gwahoddir y Pwyllgor i gytuno ar ddyddiad y cyfarfod nesaf sef dydd Iau 19 Hydref.

**Bydd y Pwyllgor yn ystyried eitem 7 mewn sesiwn gaeedig**

**Eitem 7: Adolygiad o'r Weithdrefn Gwyno - 45 munud**

**Papur:** Papur a gynhyrchwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD(2) 02-06(04)

Gwahoddir Aelodau'r Pwyllgor i ystyried y papur trafod a gynhyrchwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth mewn perthynas â'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad.

**Ysgrifenyddiaeth** **Mehefin 2006**
**Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**